OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 860 (Cy.107)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*25 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 457(4)(b)(iii) a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "Credyd Treth i Blant" a "Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio" yr ystyr a roddir i "*Child Tax Credit*" a "*Working Tax Credit*" yn Neddf Credydau Treth 2002(**3**).

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996; ac

ystyr "incwm blynyddol" ("*annual income*") yw yr incwm am y flwyddyn dreth sydd yn cael ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(**4**)).

(**1**) 1996 p.56. (Diwygir adran 457 (4)(b) yn rhagolygol gan adran 200 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ac mae i ddod i rym ar 31 Mawrth 2003 yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/3185) (Cy.301) (C.107)). I gael ystyr 'prescribed' a 'regulations' gweler adran 579(1) .

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002.

(**3**) 2002 p.21.

(**4**) O.S. 2002/2006. Mae incwm blynyddol person sydd yn cael ei gyfrifo yn unol â'r rheoliadau hynny yn cynnwys incwm partner y person hwnnw os oes cais ar y cyd i dderbyn Credyd Treth i Blant.